# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 1**

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

**PENNOD 2**

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

## 11 Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

(1) Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor ("pwyllgor gwasanaethau democrataidd")—

(a) i arfer swyddogaeth yr awdurdod lleol o dan adran 8(1)(a) ("dynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd"),

(b) i adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a

(c) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

(2) Mater i bwyllgor gwasanaethau democrataidd ei benderfynu yw sut i arfer y swyddogaethau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 11.